

JONES, NATHANIEL (CYNHAFAL) (1832 - 1905), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

Enw: Nathaniel (Cynhafal) Jones

Dyddiad geni: 1832

Dyddiad marw: 1905

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

Awdur: Idwal Lewis

Ganwyd yn ardal Gellifor, Llangynhafal, sir Ddinbych, 19 Ebrill 1832. Yn gynnar, symudodd i'r Wyddgrug a gweithio'i grefft fel dilledydd yng ngeithdy Angel Jones, lle bu'n gydweithiwr â **Daniel Owen** am dymor. Yn 1855 symudodd i Dreffynnon, yn llyfrwerthwr teithiol yng ngwasanaeth **P. M. Evans**, y cyhoeddwr llyfrau. Dechreuodd bregethu yn 1859, a bu am ychydig mewn ysgol ramadeg a gedwid yn y dref. Yr un flwyddyn aeth i Goleg y Bala, a bu yno am bedair blynedd. Derbyniodd alwad eglwys Adwy'r Clawdd yn 1864. Symudodd oddi yno i Benrhyndeudraeth yn 1867, ac yna i Lanidloes yn 1875, a bu yno am 18 mlynedd. Bu'n llywydd cymdeithasfa'r Gogledd yn 1892 ac yn olygydd *Y Drysorfa* o 1892 hyd 1897. Yn 1892 ymgartrefodd yn y Rhyl heb ofal eglwys, ond, yn 1895, derbyniodd alwad eglwys Engedi, Bae Colwyn, ac yno y bu am saith mlynedd. Wedi ymneilltuo, bu'n byw yn Abergele, ac yna ym Mlaenau Ffestiniog, lle y bu farw 14 Rhagfyr 1905, a'i gladdu yn Abergele.

Dechreuodd ' Cynhafal ' lenyddia'n gynnar a bu ef a **John Davies** ('Gwyneddon') yn cydolygu **Charles o'r Bala**, cylchgrawn at wasanaeth yr ysgol Sul. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth ac ymgeisiodd yn yr eisteddfod genedlaethol gan ddyfod yn ail am y gadair fwy nag unwaith. Cyhoeddodd gyfrolau o'i farddoniaeth: *Fy Awenydd*, 1859, *Elias y Thesbiad*, 1869, *Y Mesiah* 1895, *Y Beibl*, 1895, *Charles o'r Bala*, 1898. Yn 1881 ysgrifennodd ef a **Richard Mills Buchdraeth y Parch. John Mills**. Ei orchestwaith llenyddol oedd golygu *Gweithiau Williams Pant y Celyn*, yn ddwy gyfrol, 1887-91.

Awdur

Idwal Lewis

Ffynonellau

Y Drysorfa, Ionawr 1898, Chwefror 1906

Y Geninen (Gŵyl Dewi), 1906

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Nathaniel Jones**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9631238

Wikidata: Q6969710

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Lewis, I., (1953). JONES, NATHANIEL (CYNHAFAL) (1832 - 1905), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 15 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-NAT-1832>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government